# Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## SJR(2)-16-06(p.2)

### Dyddia: 23 Tachwedd 2006
### Lleoliad: Canolfan Casnewydd
### Teitl: Ystyried y Gyllideb Ddrafft

#### Diben

Cyflwyno sylwadau ar y gyllideb ddrafft ar gyfer y tair blynedd rhwng 2007-2010, fel y'i cyflwynwyd gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, ac a drafodwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Hydref 2006.

#### Crynodeb / Argymhellion

Bod y Pwyllgor yn cyflwyno ei sylwadau ar y papur i'w ystyried yn Atodiad 1 a thablau'r gyllideb ddrafft ar Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn Atodiad 2.

#### Cefndir

Mae'r Cylch Cynllunio Cyllideb hwn yn effeithio ar flynyddoedd ariannol 2007-2008, 2008-09 a 2009-2010. Mewn sawl achos, mae adnoddau ychwanegol wedi'u dyrannu.

Cyflwynais bapur materion i'r Pwyllgor ar 6 Gorffennaf 2006, ac aeth y Pwyllgor ati i amlinellu ei flaenoriaethau a'r meysydd sy'n peri pryder iddo. Cytunodd y Pwyllgor bod rhaid i'r meysydd a nodwyd yn fy mhapur sy'n arwain at bwysau anochel barhau i dderbyn cyllid, ac roedd cytundeb unfrydol y dylid canolbwyntio ar dai fel prif flaenoriaeth y portffolio. Mae dyraniadau'r gyllideb yn rhoi ystyriaeth i'r rhain.

Bydd y gyllideb hon yn dylanwadu'n fawr ar yr ymrwymiadau a roddwyd yn Cymru: Gwlad Well ar gyfer y meysydd rhaglen sy'n berthnasol i'r portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.

Nod y rhaglenni hyn yw adfywio cymunedau Cymru, yn arbennig felly'r rhai sydd dan yr anfantais fwyaf. Mae'r rhaglenni yn cynnwys mentrau tai a'r gwaith o gefnogi pobl sy'n agored i niwed oherwydd trais yn y cartref a chamddefnyddio sylweddau.

Bydd yr adnoddau a ddyrennir yn cyfrannu at amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl o wariant cyhoeddus.

Camau Gweithredu ar gyfer y Pwyllgor Pwnc

Gofynnir i'r Pwyllgor gyflwyno ei sylwadau ar y gyllideb ddrafft ar gyfer y tair blynedd rhwng 2007 a 2010.

Edwina Hart
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio